PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI FFIOEDD DYSGU

# 2024/25

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer pennu, talu a chasglu ffioedd dysgu Prifysgol Bangor a ffioedd eraill sy'n gysylltiedig â dysgu.

1.2. Mae'r polisi hwn yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Llywodraethu a phennu ffioedd dysgu;
- Symiau ffioedd dysgu a'r cyfnod y maent yn berthnasol;
- Taliadau ac ad-daliadau;
- Rheoli ffioedd dysgu a dyledion cysylltiedig;
- Ffioedd dysgu ar gyfer grwpiau penodol

1.3. Nid yw'r polisi hwn yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Ffioedd neuaddau preswyl neu ffioedd eraill sy'n gysylltiedig â llety;
- Ffioedd parcio cerbydau;
- Ffioedd tanysgrifio Undeb y Myfyrwyr;
- Ffioedd seremonïau graddio neu ffioedd llogi gŵn.

1.4. Mae'r polisi hwn a ffioedd dysgu pob rhaglen yn cael eu cyhoeddi ar wefan gyhoeddus y Brifysgol. Bydd manylion unrhyw newidiadau a wneir i'r polisi hwn hefyd ar gael trwy wefan gyhoeddus y Brifysgol, sydd yn hygyrch i ddarpar fyfyrwyr, i fyfyrwyr newydd ac i fyfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau.

1.5. Gofynnir i fyfyrwyr gytuno â thelerau'r polisi hwn fel rhan o'r broses gofrestru ar ddechrau pob blwyddyn astudio.

1.6. Mae'r polisi hwn (gan gynnwys ei atodiadau) yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Grŵp Strategaeth Cyllid a Chynllunio'r Brifysgol, i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion myfyrwyr ac anghenion y Brifysgol.

1.7. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gymryd camau priodol yn erbyn myfyrwyr sy'n methu â thalu eu ffioedd, neu wneud trefniadau boddhaol i dalu ar y dyddiad y mae eu rhaglen yn dechrau neu cyn pen cyfnod penodol o amser wedi hynny (gweler cymal 12. Rheoli Dyledion).

1.8. Dylai myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni Prifysgol trwy sefydliadau partner gyfeirio at wybodaeth am y rhaglenni hynny i gael manylion am unrhyw bolisïau ffioedd sy'n berthnasol iddynt yn eu sefydliadau lletyol.

1.9. Mae'r Brifysgol yn cadarnhau ei bod yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch (Mai 2023), gan gynnwys y prosesau ar gyfer pennu a nodi lefelau ffioedd.

## 2. Llywodraethu

2.1. Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn y pen draw sy'n gyfrifol am gymeradwyo a newid ffioedd dysgu, gan ddatganoli'r cyfrifoldeb hwnnw i'r Grŵp Strategaeth Cyllid a Chynllunio.

2.2. Mae'r Grŵp Strategaeth Cyllid a Chynllunio yn ystyried pob agwedd yn ymwneud â ffioedd dysgu myfyrwyr a threfniadau cyllido, gan gynnwys bwrsariaethau, ysgoloriaethau, gostyngiadau a hepgor ffioedd, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol: -

2.2.1. I gomisiynu dadansoddiad meincnodi ac ymgynghori ag Ysgolion/Colegau mewn perthynas ag adolygu a phennu ffioedd dysgu, gostyngiadau, ysgoloriaethau, bwrsariaethau a hepgor ffioedd yn flynyddol.

2.2.2. I argymell amserlen flynyddol i'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â ffioedd dysgu, gostyngiadau, ysgoloriaethau, bwrsariaethau a hepgor ffioedd.

2.2.3. I sicrhau y cynhelir cadwrfa ganolog mewn perthynas â ffioedd dysgu, gostyngiadau, ysgoloriaethau, bwrsariaethau a hepgor ffioedd y cytunwyd arnynt.

2.2.4. I fonitro ac adolygu polisïau perthnasol, telerau ac amodau, a gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol ynglŷn ag unrhyw newidiadau angenrheidiol.

2.2.5. I sicrhau cydymffurfiaeth ac aliniad â pholisïau a chanllawiau allanol (e.e. Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) mewn perthynas â ffioedd dysgu, gostyngiadau, ysgoloriaethau, bwrsariaethau a hepgor ffioedd.

2.2.6. I sicrhau bod ceisiadau ad-hoc i gymeradwyo amrywiadau i atodlenni ffioedd cyhoeddedig yn cael eu hystyried yn briodol a'u cofnodi, ac y ceisir cymeradwyaeth gan y Grŵp Strategaeth Cyllid a Chynllunio neu'r Cadeirydd.

2.2.7. I gyfrannu at elfennau perthnasol Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol mewn perthynas â ffioedd wedi eu rheoleiddio.

2.2.8. I sicrhau y cyfathrebir yn effeithiol ledled y Brifysgol am ffioedd dysgu, gostyngiadau, ysgoloriaethau, bwrsariaethau a hepgor ffioedd y cytunwyd arnynt.

2.3. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Cyllid a Chynllunio gymeradwyo camau gweithredu y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol. Mae'r camau hyn yn cael eu nodi a'u hadrodd yn ffurfiol i'r Grŵp Strategaeth Cyllid a Chynllunio yn y cyfarfod nesaf sydd a drefnwyd.

2.4. Ni ellir amrywio na newid unrhyw ffioedd oni wneir hynny yn ôl y llwybrau cymeradwy a nodir uchod a chreffir ar yr holl ffioedd dysgu gan y Grŵp Strategaeth Cyllid a Chynllunio a'r Bwrdd Gweithredol.

2.5. Mae rhai achosion lle mae'n bosibl na fydd ffioedd yn cael eu codi ar y gyfradd gyhoeddedig na fydd angen cymeradwyaeth y Grŵp Strategaeth Cyllid a Chynllunio (neu ei Gadeirydd) os gall Pennaeth yr Ysgol/Adran roi tystiolaeth ddigonol i'r tîm Data Corfforaethol sy'n gyfrifol am anfonebu ffioedd dysgu:

2.5.1. Myfyrwyr a ariennir yn allanol lle bydd y cyllidwr ond yn ariannu ar lefel ffioedd Cartref waeth beth fo statws preswylio'r myfyriwr;

2.5.2. Lle mae'r ffi wedi'i chostio fel rhan o grant/contract ymchwil a ariennir yn allanol a'i chytuno drwy'r prosesau llywodraethu a chymeradwyo perthnasol.

## 3. Pennu Ffioedd Dysgu

3.1. Bydd y Brifysgol yn adolygu ei ffioedd a'i pholisi ffioedd yn flynyddol.

3.2. Gellir codi'r ffioedd dysgu'n flynyddol, lle caniateir hynny, gan adlewyrchu cynnydd yng nghostau darparu, a byddant ar gael ar wefan y Brifysgol.

3.3. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r cap statudol ar ffioedd ar gyfer rhaglenni Israddedig a rhaglenni Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) i fyfyrwyr cartref. Mae'r Brifysgol yn gosod ffioedd llawn amser a rhan amser i adlewyrchu'r cap ffioedd uchaf cymwys hwn, fel y'i diffinnir yn ei Chynllun Ffioedd a Mynediad blynyddol, y cytunwyd arno gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW). Gellir adolygu ffioedd, os caniateir hynny a lle bo angen gwneud, yn unol â'r capiau statudol perthnasol ar ffioedd, fodd bynnag, ni fydd y Brifysgol yn codi'r ffioedd ar gyfer unrhyw gredydau neu raglenni yn ystod blwyddyn academaidd, neu unwaith y bydd y ffioedd ar gyfer blwyddyn academaidd wedi'u cyhoeddi.

3.4. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid ei ffioedd yn dilyn craffu ac ymgynghori mewnol priodol. Dim ond fel y caniateir gan delerau'r polisi hwn a rheoliadau eraill y Brifysgol y gellir gwneud newidiadau. Ni fydd myfyrwyr ar raglenni lle cyhoeddir ffioedd cwrs cyfan, neu lle pennir codiadau ffioedd blynyddol ymlaen llaw, yn gweld unrhyw newid pellach i'w ffioedd yn ystod y rhaglen y maent wedi cofrestru arni, oni bai eu bod yn gohirio eu hastudiaethau. Yn achos rhaglenni lle mae Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn pennu'r ffioedd, bydd y cynnydd yn swm y ffioedd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl i'r llywodraeth berthnasol ei gymeradwyo.

3.5. Mae'r holl ffioedd a gyhoeddir gan y Brifysgol mewn punnoedd sterling. Cyhoeddir gwybodaeth am ffioedd mewn arian cyfred eraill dim ond pan fo cyrff rheoleiddio neu gyrff allanol yn mynnu hynny'n benodol. Bydd unrhyw ffioedd a gyhoeddir mewn arian cyfred heblaw am bunnoedd sterling yn seiliedig ar y gyfradd gyfnewid ar yr adeg y cyfrifir y swm. Ni ellir dal y Brifysgol yn gyfrifol am newidiadau ym marchnadoedd ariannol y byd nac am gyfraddau cyfnewid arian cyfred.

## 4. Statws Ffioedd

4.1. Mae'r Brifysgol yn codi gwahanol lefelau o ffioedd sy'n cael eu pennu yn ôl categori preswylio'r myfyriwr, sef 'cartref' neu 'ryngwladol'.

4.2. Mae statws ffioedd 'cartref' yn cynnwys Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw, yn ogystal â sawl grŵp arall; asesir y statws hwn yn unol â Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007. Ystyrir fod pob myfyriwr arall yn 'rhyngwladol'. Mae canllawiau ychwanegol ar statws ffioedd ar gael gan yr UK Council for International Affairs (UKCISA)

4.3. Seibiant Astudio
Mae'r Brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr gael seibiant astudio yn ystod y rhaglen, at ddibenion asesiad ariannol; fel rheol cyfnod hwyaf y seibiant fydd dwy flynedd academaidd. O dan amgylchiadau arferol ailasesir statws 'myfyriwr sy'n parhau' myfyrwyr sy'n cymryd seibiant hwy mewn astudio, a chodir y ffi sy'n briodol ar gyfer y flwyddyn y bydd y myfyriwr yn dychwelyd i astudio.

## 5. Myfyrwyr Newydd a Myfyrwyr sy'n Parhau

5.1. Caiff 'myfyriwr newydd' ei ddiffinio fel unrhyw un o'r canlynol: -

5.1.1. myfyriwr sy'n dechrau rhaglen newydd yn y Brifysgol yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

5.1.2. myfyriwr sy'n dechrau rhaglen newydd yn y Brifysgol yn y flwyddyn academaidd gyfredol pan fo'r rhaglen ar lefel wahanol (e.e. ôl-radd, nid israddedig) i unrhyw raglen a gafodd ei dilyn yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.

5.1.3. myfyriwr sy'n parhau ar yr un rhaglen yn y Brifysgol yn dilyn seibiant astudio wedi ei awdurdodi o fwy na dwy flynedd.

5.1.4. myfyriwr sy'n newid y dull astudio (e.e. o lawn amser i ran amser). Mae hyn yn wahanol i newid i ddull mynychu rhan amser a pharhau i fod wedi cofrestru ar raglen llawn amser.

5.1.5. myfyriwr sy'n trosglwyddo o sefydliad addysg uwch arall.

5.1.6. myfyriwr sy'n 'ychwanegu at' gymhwyster addysg uwch (e.e. o radd sylfaen i radd anrhydedd) yn dilyn seibiant astudio o flwyddyn neu ragor.

5.2. Caiff 'myfyriwr sy'n parhau' ei ddiffinio fel unrhyw un o'r canlynol: -

5.2.1. myfyriwr sy'n parhau ar yr un rhaglen yn y Brifysgol â'r flwyddyn academaidd flaenorol, neu yn dilyn seibiant astudio wedi ei awdurdodi o lai na dwy flynedd.

5.2.2. myfyriwr sy'n trosglwyddo o'r naill raglen i'r llall o fewn y Brifysgol ac nad yw'n newid ei ddull astudio (e.e. o lawn amser i ran amser).

5.2.3. myfyriwr sy'n 'ychwanegu at' gymhwyster addysg uwch (e.e. o radd sylfaen i radd anrhydedd) heb seibiant astudio, gan gynnwys dilyniant o sefydliad partner pan fo'r rhaglen yn parhau yn y Brifysgol.

5.3. Mewn achosion lle mae amgylchiadau anarferol neu liniarol yn berthnasol, bydd y Brifysgol, yn ôl ei disgresiwn, yn diffinio myfyriwr fel myfyriwr newydd neu fyfyriwr sy'n parhau.

## 6. Lefelau Astudio

6.1. Mae tair lefel astudio y caiff ffioedd rhaglen eu categoreiddio, sef Israddedig, Ôl-radd hyfforddedig ac Ymchwil ôl-radd.

6.2. Mae rhestr lawn o gymwysterau'r Brifysgol i'w gweld ar dudalennau gwe'r Brifysgol – Cymwysterau.

## 7. Cyfnod Astudio a'r Drefn Ffioedd

7.1. Bydd myfyrwyr yn cofrestru ar ddechrau eu rhaglen, ac wedi hynny yn cofrestru ar ddechrau pob blwyddyn academaidd sy'n dilyn hynny (Medi). Hyd arferol cyfnod astudio yw uchafswm o 12 mis calendr. Ar ddiwedd y cyfnod astudio hwn, mae'n ofynnol i fyfyrwyr gofrestru eto ar gyfer eu blwyddyn academaidd nesaf (fel y'i diffinnir yn Rheoliad 01).

7.2. Yn achos pob myfyriwr hyfforddedig, a myfyrwyr ymchwil ôl-radd rhyngwladol, y gyfundrefn ffioedd (y polisi ffioedd perthnasol a'r atodlen ffioedd) sydd yn ei lle ar ddechrau'r flwyddyn academaidd gyntaf fydd yn parhau i fod yn weithredol trwy gydol eu rhaglen, oni bai: -

7.2.1. bod newid yn y dull astudio (e.e. o lawn amser i ran amser), neu

7.2.2. bod seibiant astudio o fwy na 2 flynedd, neu

7.2.3. bod cytundeb arall wedi'i ddiffinio yn y llythyr cynnig

7.3. Bydd y gyfundrefn ffioedd ar gyfer myfyrwyr ôl-radd ymchwil cartref yn newid ym mhob blwyddyn academaidd ddilynol, yn unol ag unrhyw godiadau a wneir i lefelau tâl doethurol a ffioedd dynodol yr UKRI.

7.4. Yn achos myfyrwyr sy'n gohirio eu lle yn y Brifysgol, y fersiwn o'r gyfundrefn ffioedd a fydd yn berthnasol fydd y fersiwn ar gyfer y flwyddyn academaidd y byddant yn cychwyn ar eu cyfnod astudio, ac nid y fersiwn ar gyfer y flwyddyn y gwnaed y cais / a gafodd ei gohirio.

## 8. Swm y Ffioedd

8.1. Gellir gweld y ffioedd ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n dechrau ar raglen yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod/gyfredol yn atodlen ffioedd y Brifysgol, ynghyd â ffioedd myfyrwyr ymchwil ôl-radd sy'n parhau. Gellir dod o hyd i ffioedd myfyrwyr sy'n parhau drwy gyfeirio at yr atodlen sy'n cyfateb i'r flwyddyn y dechreuont eu hastudiaethau.

8.2. Mae'r holl ffioedd yn cael eu talgrynnu i'r bunt gyfan agosaf, felly, lle mae ffioedd rhan amser yn cael eu cyfrif ar sail pro rata, gall cyfanswm y ffioedd amrywio rhyw fymryn o'r ffioedd llawn amser cyfatebol.

8.3. Gall symiau ffioedd dysgu fod yn wahanol rhwng rhaglenni ar yr un lefel, a chodir y ffioedd ar fyfyrwyr sy'n briodol i'r rhaglen y mae wedi'i chofrestru arni. Yn achos myfyrwyr sy'n trosglwyddo o'r naill raglen i'r llall yn ystod y flwyddyn academaidd, pan fo'r ffioedd a godir am yr ail raglen yn wahanol i'r ffioedd a godir am y rhaglen gyntaf, bydd yn ofynnol i'r myfyriwr dalu'r ffioedd sy'n briodol i'r rhaglen newydd. Mewn achosion o'r fath, bydd gofyn i fyfyrwyr naill ai dalu'r gwahaniaeth, neu efallai y bydd ganddynt hawl i gael ad-daliad, yn dibynnu ar unrhyw daliadau sy'n ddyledus ar gyfer y rhaglen wreiddiol.

8.4. Ni chaniateir amrywio'r ffioedd hyn heb gadarnhad ysgrifenedig gan y Brifysgol.

8.5. Ffioedd Rhaglenni

Mae ffioedd rhaglenni yn cynnwys yr holl elfennau gorfodol sy'n ofynnol er mwyn i fyfyrwyr fodloni deilliannau dysgu sylfaenol y rhaglen.

8.6. Ffioedd Modiwlau

Mae nifer o gredydau ynghlwm wrth bob modiwl yn y Brifysgol ac mae'r ffioedd a godir am fodiwl yn adlewyrchu nifer y credydau y gall myfyriwr eu cael ar ôl cwblhau'r modiwl. Cyhoeddir ffioedd modiwlau fesul 10 credyd. Mae ffioedd modiwlau yn cynnwys yr holl elfennau gorfodol sy'n ofynnol er mwyn i fyfyrwyr fodloni deilliannau dysgu sylfaenol y modiwl.

8.7. Ffioedd Blwyddyn Ryngosod / Lleoliad

Mae'r Brifysgol yn codi ffioedd dysgu is ar fyfyrwyr sy'n treulio blwyddyn ryngosod neu ar leoliad. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r lefel uchaf flynyddol o ffioedd ar gyfer rhaglenni rhyngosod, ac ar gyfer lleoliadau gwaith a lleoliadau tramor i fyfyrwyr

Ffioedd Cefnogaeth Ymchwil (neu 'Ffioedd Mainc') a Chostau Ychwanegol Dewisol

8.8. Codir ffioedd cefnogaeth ymchwil, a elwir hefyd yn ffioedd 'mainc', lle ceir costau ychwanegol penodol ar rai rhaglenni ôl-radd er mwyn talu am gyfleusterau a all gynnwys: nwyddau traul sylfaenol; gwaith labordy neu waith maes arbenigol; prynu, llogi a chynnal a chadw offer; a chaledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol.

8.9. Yn achos rhai rhaglenni a modiwlau israddedig ac ôl-radd, gall fod costau ychwanegol dewisol (e.e. teithiau maes, deunyddiau, aelodaeth corff proffesiynol, ac ati), ond bydd y rhain wedi'u nodi'n glir ymlaen llaw, yn y llenyddiaeth am y rhaglenni ac ar dudalennau gwe'r Brifysgol, gan restru'r union symiau, lle bo hynny'n bosibl.

8.10. Bydd darpar fyfyrwyr yn cael gwybod am ffioedd cefnogaeth ymchwil (neu 'ffioedd mainc') ac/neu am unrhyw gostau ychwanegol dewisol pan gynigir lle iddynt yn y Brifysgol.

Ffioedd i gael Cydnabyddiaeth ac Achrediad gan Gyrff Proffesiynol

8.11. Fel rhan o ffioedd rhai rhaglenni, gall y Brifysgol dalu am gofrestru myfyrwyr â chyrff proffesiynol. Bydd manylion am hyn wedi eu cynnwys yn y wybodaeth a anfonir at ddarpar fyfyrwyr cyn eu bod yn cofrestru.

8.12. Mewn achosion eraill, pan fo’n ofynnol bod myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni’n cofrestru neu’n cael achrediad gan gorff proffesiynol, a phan fo ffioedd ychwanegol i'w talu i wneud hynny, y myfyriwr ei hun sy'n llwyr atebol am dalu ffioedd o'r fath yn ychwanegol at eu ffioedd dysgu. Bydd manylion y taliadau hynny a gwybodaeth am sut i dalu wedi eu cynnwys yn y wybodaeth a anfonir at ddarpar fyfyrwyr cyn eu bod yn cofrestru. Yn yr achosion hyn, y myfyrwyr sy'n gyfrifol am dalu'n uniongyrchol i'r sefydliad allanol.

Ffioedd Parhau ar gyfer Myfyrwyr Ôl-radd Ymchwil (o 2020/21)

8.13. Os na fydd myfyriwr ymchwil ôl-radd llawn amser yn cyflwyno ei draethawd ymchwil i’w arholi cyn diwedd y bedwaredd flwyddyn yn olynol, yn dilyn cofrestru i ddechrau, wedi hynny bydd ffioedd parhau i'w talu yn y bumed flwyddyn yn olynol, ac ym mhob blwyddyn sy'n dilyn wedi hynny.

8.14. Gellir defnyddio ffioedd parhau ar un o ddwy lefel, yn dibynnu ar ddull a lleoliad yr astudiaethau: -

8.14.1. Codir 10% o'r ffi flynyddol ar fyfyrwyr sy'n parhau â'u rhaglen yn y fan a'r lle, gan ddefnyddio cyfleusterau ac adnoddau Prifysgol Bangor. Codir y swm hwn am bob blwyddyn academaidd y bydd y myfyrwyr yn parhau â'u rhaglen.
8.14.2. Codir 5% o'r ffi flynyddol ar fyfyrwyr sy'n parhau â'u rhaglen, o bell, i ffwrdd o Fangor. Codir y swm hwn am bob blwyddyn academaidd y bydd y myfyrwyr yn parhau â'u rhaglen.

8.15. Dim ond i fyfyrwyr ymchwil ôl-radd sy'n dechrau ar eu rhaglen o 2020/21 ymlaen y bydd ffioedd parhau yn berthnasol, pan fo arnynt angen pumed flwyddyn o astudio, neu fwy, h.y. parhau o 2024/25 ymlaen.

8.16. Yn achos myfyrwyr rhan amser, bydd y ffioedd parhau'n berthnasol o'r hyn sy'n cyfateb i'r bumed flwyddyn llawn amser ar sail pro rata, ac ym mhob blwyddyn ddilynol wedi hynny.

Ffioedd Ailsefyll

8.17. Os nad yw myfyrwyr yn llwyddo y tro cyntaf mewn modiwl caniateir iddynt ailsefyll. Ni chodir unrhyw dâl am ailsefyll o fewn y flwyddyn academaidd wreiddiol.

8.18. Codir ffi amser llawn pro rata ar fyfyrwyr sy'n cofrestru fel myfyriwr rhan amser neu fyfyriwr allanol er mwyn ailsefyll mewn blwyddyn academaidd ddilynol, fel y diffinnir hynny yn atodlen ffioedd y flwyddyn y bydd yr ailsefyll yn digwydd. [Gweler Rheoliad 01: adran 5. Ailsefyll ac Ailgyflwyno].

8.19. Ceisiadau am Hepgor Ffioedd
Rhaid i unrhyw geisiadau am hepgor ffioedd gael eu cyflwyno i'r Grŵp Strategaeth Cyllid a Chynllunio (neu ei gadeirydd), gyda'r rhesymeg strategol wedi'i hamlinellu'n glir, a chânt eu hystyried, a'u cytuno arnynt neu'u gwrthod, yn unol ag adran 2. Llywodraethu.

## 9. Talu Ffioedd

9.1. Dylai myfyrwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o oblygiadau ariannol gohirio eu hastudiaethau neu eu terfynu cyn derbyn cynnig o le yn y brifysgol.

9.2. Disgwylir i ffioedd gael eu talu'n llawn cyn cwblhau'r broses gofrestru, oni bai bod y myfyriwr yn gymwys i fanteisio ar yr opsiwn i dalu yn defnyddio un o gynlluniau talu cytunedig y Brifysgol. Bydd talu ffioedd yn hwyr fel arfer yn arwain at ffioedd ychwanegol. Gall myfyrwyr cartref a myfyrwyr rhyngwladol ddod o hyd i fanylion penodol ar dudalennau gwe 'Talu Ffioedd' y Brifysgol.

## 10. Tynnu Allan a Gohirio Astudiaethau

10.1. Dylai myfyrwyr sy'n ystyried gadael y Brifysgol gysylltu â Thîm Cefnogi Myfyrwyr y Gwasanaethau Myfyrwyr.

10.2. Mae'r Brifysgol yn deall, weithiau, y bydd ar rai myfyrwyr angen neu eisiau tynnu allan, neu ohirio eu hastudiaeth. Mewn llawer o achosion, bydd ffioedd yn ddyledus a bydd myfyrwyr yn cael eu codi pro rata hyd at y dyddiad tynnu'n ôl.

10.3. Bydd ffioedd dysgu'n parhau i fod yn ddyledus hyd y dyddiad y bydd y Brifysgol yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o fwriad myfyriwr i dynnu allan neu ohirio ei astudiaethau; ni fydd gohirio yn ôl-weithredol fel rheol yn cael ei awdurdodi.

10.4. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno cais ysgrifenedig i ohirio astudiaethau drwy'r Ganolfan Geisiadau, a rhaid i'r cais gynnwys:
10.4.1. Y rhesymau dros wneud cais i ohirio astudiaethau;
10.4.2. Tystiolaeth i gadarnhau amgylchiadau meddygol neu bersonol;
10.4.3. Dyddiad dechrau'r cyfnod o ohirio astudiaethau;
10.4.4. Dyddiad gorffen arfaethedig y cyfnod o ohirio astudiaethau (os yw'n hysbys).
Gweler polisi "Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau" y Brifysgol.

10.5. Rhaid cyflwyno ceisiadau fel rheol cyn dechrau'r cyfnod o ohirio astudiaethau neu o fewn mis i'r myfyriwr roi gorau i'w astudiaethau am resymau anorfod (e.e. damwain a rwystrodd y myfyriwr rhag parhau â'i astudiaethau). Dim ond dan amgylchiadau eithriadol fesul achos a phan all y myfyriwr ddangos fod rheswm da dros beidio â chyflwyno'r cais ar yr adeg briodol yr ystyrir ceisiadau wedi eu hôl-ddyddio (h.y. mwy na mis).

10.6. Fel rheol rhaid talu unrhyw ffioedd sy'n ddyledus cyn dechrau'r cyfnod o ohirio astudiaethau, neu yn unol ag amserlen y cytunwyd arni gyda'r Brifysgol y gall y myfyriwr ddangos y cedwir ati (gweler cymal 12. Rheoli Dyledion, isod).

## 11. Codi Tâl ac Ad-daliadau

### Canslo neu Derfynu Cofrestriad

11.1. Mae gan bob myfyriwr yr hawl i ganslo eu cofrestriad gyda'r Brifysgol o fewn 'cyfnod gras', a ddiffinnir fel 14 diwrnod calendr o ddechrau eu tymor cyntaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ni chodir ffioedd arnynt. Trwy roi hysbysiad ysgrifenedig o fewn yr amser hwn, gall myfyriwr dynnu'n ôl o'r Brifysgol heb i ffioedd dysgu gael eu codi arno, ac eithrio unrhyw flaendal a dalwyd yn unol â'r telerau a nodwyd yn llythyr cynnig y myfyriwr. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod yr hysbysiad hwn yn cyrraedd y Brifysgol mewn pryd.

11.1.1. I fyfyrwyr sy'n derbyn lle yn y brifysgol trwy system glirio UCAS, y cyfnod gras yw 14 diwrnod o'r pwynt derbyn y lle a gynigiwyd drwy UCAS Track; ni chodir tâl am unrhyw wasanaethau angenrheidiol a ddarperir iddynt o fewn yr amser hwn os caiff y contract ei ganslo o fewn y 14 diwrnod hynny. Trwy roi rhybudd ysgrifenedig yn ystod yr amser hwn, gall myfyriwr dynnu'n ôl o'r Brifysgol heb gael ei gosbi'n ariannol a rhoddir ad-daliad llawn.

11.2. Ar ddechrau pob sesiwn academaidd, neu ar ddechrau unrhyw raglen benodol, bydd ffenestr 'cofrestru dros dro' o 30 diwrnod ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n rhaid i fyfyrwyr gadarnhau gyda thystiolaeth ysgrifenedig sut y byddant yn talu eu ffioedd: naill ai yn unol â chynllun cymeradwy o randaliadau neu trwy noddwr cydnabyddedig. Bydd methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn, heb esboniad derbyniol, yn arwain at derfynu'r cofrestriad fel y nodir yn y "Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Pob Myfyriwr".

11.3. Codir ar fyfyrwyr y terfynir eu hastudiaethau fel y nodir yn "Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Pob Myfyriwr" y Brifysgol, fel y manylir isod, yn seiliedig ar y dyddiad terfynu.

### Blaendaliadau

11.4. Lle codir blaendal fel rhan o'r broses dderbyn, bydd hyn yn cael ei nodi yn y cynnig mynediad. Cedwir blaendaliadau ym mhob achos.

11.5. Lle cyfrifir ad-daliadau pro rata ar ôl tynnu astudiaethau'n ôl neu derfynu astudiaethau, y tâl a godir fydd pa un bynnag sydd fwyaf o (i) y blaendal a dalwyd neu (ii) y ffi pro rata yn unol â'r cymalau isod.

11.6. Gellir darparu Llythyrau Gwarant Ariannol yn lle talu blaendal, cyn i'r Brifysgol gyhoeddi Cadarnhad Derbyn i Astudio. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r llythyr gael ei gyhoeddi gan noddwr a gydnabyddir gan Brifysgol Bangor a dylai nodi enw llawn deiliad y cynnig, dyddiad geni, rhif adnabod y myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor, rhaglen astudio, hyd y nawdd (mewn blynyddoedd), ffioedd dysgu'r rhaglen, a chostau byw (os yw'n berthnasol).

11.7. Bydd blaendal yn cael ei ad-dalu mewn amgylchiadau eithriadol, sy'n cynnwys:
- salwch wedi ei ardystio;
- profedigaeth deuluol; ac
- mewn rhai achosion lle gwrthodir rhoi fisa.

Ym mhob achos, bydd angen dogfennau ategol.

### Ad-daliadau Pro Rata

11.8. Yn achos myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl o'r Brifysgol ar ôl y 'cyfnod gras' o 14 diwrnod, bydd y ffioedd dysgu fel rheol yn cael eu had-dalu ar sail pro rata, fel yr amlinellir yn yr adrannau canlynol.

11.8.1. Myfyrwyr Israddedig Llawn Amser a Myfyrwyr TAR (gan gynnwys y rhai hynny sy'n ail-wneud rhaglen llawn amser yn rhan amser ar ôl methu) y dechreuodd eu rhaglenni ar ddechrau'r flwyddyn academaidd:

11.8.1.1. Cartref:
Codir pro rata, yn wythnosol, am hyd at 30 wythnos ar gyfer rhaglenni israddedig, a 38 wythnos ar gyfer rhaglenni TAR, yn amodol ar yr uchafswm a bennir gan reolau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Bydd y ffi a godir yn ganran o'u ffioedd

blynyddol, yn unol â chyfundrefn talu ffioedd dysgu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a'r tri dyddiad cyfrifo canlynol:

- Uchafswm ffioedd o 25% hyd at ddechrau Tymor 2
- Uchafswm ffioedd o 50% o ddechrau Tymor 2 hyd at ddechrau Tymor 3
- Dim gostyngiad mewn ffioedd o ddechrau Tymor 3.

11.8.1.2. Rhyngwladol:
Codir pro rata, yn wythnosol, am hyd at 30 wythnos ar gyfer rhaglenni israddedig, a 38 wythnos ar gyfer rhaglenni TAR. Codir y ffi wythnosol lawn os cofnodir presenoldeb a/neu ymwneud â'r rhaglen yn ystod yr wythnos benodol honno.

11.8.2. Myfyrwyr Israddedig Rhan Amser (ac eithrio'r rhai sy'n ail-wneud rhaglen lawn amser yn rhan amser yn dilyn methu):

11.8.2.1. Codir pro rata, yn wythnosol, am hyd at 30 wythnos. Codir y ffi wythnosol lawn os cofnodir presenoldeb a/neu ymwneud â'r rhaglen yn ystod yr wythnos benodol honno.

11.8.3. Myfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig Llawn Amser:

11.8.3.1. Codir pro rata, yn wythnosol, am hyd at 45 wythnos. Codir y ffi wythnosol lawn os cofnodir presenoldeb a/neu ymwneud â'r rhaglen yn ystod yr wythnos benodol honno.

11.7.4. Myfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig Rhan Amser:

11.7.4.1. Codir tâl pro rata, wythnosol, am y modiwlau cofrestredig sydd wedi'u hamserlennu hyd at y dyddiad tynnu'n ôl.

11.7.4.2. Yn achos myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni astudio dros y penwythnos ar sail rhan amser yn bennaf, bydd y 'cyfnod gras' o 14 diwrnod yn dechrau ar y penwythnos cyntaf ar yr amserlen.

11.7.5. Pob Myfyriwr ar Raglenni Hyfforddedig Dysgu O Bell:

11.7.5.1. Yna codir pro rata, fesul modiwl. Codir 33% o'r ffi am unrhyw fodiwl sydd wedi'i amserlennu cyn y dyddiad tynnu'n ôl.

11.7.6. Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd Llawn Amser a Rhan Amser:

11.7.6.1. Codir tâl pro rata, bob mis, hyd at 12 mis, hyd at y dyddiad tynnu'n ôl.

11.9. Benthyciadau UDA
Os yw myfyrwyr rhyngwladol o UDA yn tynnu allan o'u hastudiaethau, ac os cawsant fenthyciad o'r UDA, yna rhaid i'r Brifysgol gyfrifo faint mae angen ei ddychwelyd i'r rhoddwr benthyg. Ceir manylion am bolisi ad-dalu'r Brifysgol ar gyfer myfyrwyr benthyciadau o'r Unol Daleithiau ar wefan y Brifysgol.

11.10. Y Brifysgol yn Canslo Rhaglen neu Fodiwl
Os bydd y Brifysgol yn canslo rhaglen neu fodiwl, a bod dim rhaglen neu fodiwl amgen addas y gall myfyriwr drosglwyddo i'w ddilyn, rhoddir ad-daliad llawn o'r ffioedd dysgu. Os oes dewisiadau amgen addas ar gael, gofynnir am gytundeb gan y myfyriwr cyn ei drosglwyddo.

**Dulliau Ad-dalu**

11.11. Pe bai angen i'r Brifysgol ad-dalu myfyriwr, bydd yn gwneud yr ad-daliad yn defnyddio'r un dull talu ag a ddefnyddiwyd i wneud y trafodiad cychwynnol, oni chytunir yn wahanol.

11.12. Fel rheol ad-delir ffioedd a dalwyd gan drydydd parti (e.e. noddwr, cyngor ymchwil neu gwmni benthyca) i'r trydydd parti ac nid i'r myfyriwr.

**Ad-daliadau ac Ysgoloriaethau**

11.13. Bydd ysgoloriaeth a ddyfarnwyd yn ystod yr un flwyddyn ag y bu i'r myfyriwr a'i derbyniodd dynnu allan yn ddiweddarach, yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau, fel y nodir yn y llythyr cynnig neu unrhyw ohebiaeth arall gan y Brifysgol.

11.14. Os dyfarnwyd ysgoloriaeth ryngwladol i fyfyriwr a'i fod yn tynnu allan yn ddiweddarach, ni fydd cyfanswm gwerth yr ysgoloriaeth yn cael ei gynnwys yn unrhyw ad-daliad.

## 12. Rheoli Dyledion

12.1. Mae gan y Brifysgol bolisi rheoli dyledion ar wahân sydd ar gael ar wefan y Brifysgol.

## 13. Cwynion

Gall myfyrwyr gwyno trwy [Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr] y Brifysgol os ydynt o'r farn bod y polisi hwn wedi'i ddefnyddio'n anghywir yn eu hachos unigol hwy, neu'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch terfynu eu hastudiaethau a chanslo eu cofrestriad yn y Brifysgol ar sail ariannol. Dylid dilyn y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr yn y ddau achos.

## 14. Ffioedd Dysgu i Staff

14.1. Mae holl weithwyr Prifysgol Bangor (ac eithrio'r rhai hynny sydd ar hyn o bryd wedi eu cofrestru fel myfyrwyr llawn amser neu sydd yn y broses o gael eu cofrestru fel myfyrwyr llawn amser) yn gymwys i gael eu hystyried i'w heithrio rhag ffioedd ar raglenni'r Brifysgol.

14.2. Dylai fod gan yr aelod staff gontract cyflogaeth ffurfiol gyda'r brifysgol (am fwy na 12 awr yr wythnos, a gyda chyfraniadau Yswiriant Gwladol dosbarth 1A, oni bai eu bod wedi eu heithrio oherwydd oedran), sy'n ddilys o'r dyddiad cofrestru ar y rhaglen tan ddiwedd y cyfnod ffioedd 'cyfredol'.

14.3. Nid yw wardeiniaid neuaddau'r Brifysgol yn gymwys i gael eu hepgor rhag talu ffioedd dysgu.

14.4. Pan fo'r contract cyflogaeth yn dod i ben ran o'r ffordd trwy gyfnod ffioedd dilynol (e.e. y flwyddyn academaidd nesaf), codir ffioedd fel rheol ar sail pro-rata o ddiwedd y contract.

14.5. Rhaid i staff gael cydsyniad Pennaeth yr Ysgol/Adran sy'n eu cyflogi i ddilyn y rhaglen astudio ac y gellir hepgor/gostwng eu ffioedd dysgu.

14.6. Pan fo aelod staff wedi ei gyflogi fel cynorthwywr ymchwil a bod cofrestru i wneud gradd ymchwil yn amod o'r contract cyflogaeth, yna mae'n gymwys ystyried hepgor ffioedd.

14.7. Nid yw hepgor ffioedd yn bosibl pan fo aelod staff yn gymwys i hawlio swm sy'n cyfateb i'r ffioedd dysgu trwy'r Awdurdod Addysg Lleol, neu gyllidwr arall.

14.8. Pan fo ffioedd wedi eu codi ar sail pro rata o ddiwedd contract, caiff y ffioedd eu hail-gyfrif neu eu had-dalu fel y bo'n briodol os estynnir contract neu os rhoddir contract newydd.

14.9. Bydd unrhyw daliadau ychwanegol dewisol megis ymweliadau, teithiau maes, offer yn dal yn daladwy gan yr aelod o staff.

14.10. Pan fo'r aelod staff, fel myfyriwr, yn peidio â bod yn gymwys i gael eu heithrio rhag ffioedd ran o'r ffordd trwy raglen, a bod mwy na 50% o'r ffioedd dysgu wedi eu hepgor, yna bydd y ffi arholiad yn ddyledus.